


# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE  
Park Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Clwydian Range and Dee Valley AONB  
Loggerheads Country Park, Nr. Mold, Denbighshire CH7 5LH

Ffon | Tel: 01352 810614 | Ffacs | Fax: 01352 810644  
E-bost | E-mail: clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk  
Gwefan: www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/  
Web: www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/

[www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB](https://www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB)  
 [@Clwyd\\_Dee\\_AONB](https://twitter.com/Clwyd_Dee_AONB)

At: Aelodau'r Cyd-bwylgor  
Ardal o Harddwch Naturiol  
Eithriadol Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy

Dyddiad: Dydd Gwener, 5 Ebrill 2024  
Rhif Union: 01824 712589  
Ebost: democratiaidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **Cyd-bwylgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Dydd Gwener, 12 Ebrill 2024 am 10.00 am yn Siambra Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo**

Yn gywir iawn

G Williams  
Swyddog Monitro

## AGENDA

### 1. CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD

### 2. ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD (CL)

### 3. COFNODION DRAFFT CYFARFOD CYD-BWYLLGOR YR AHNE A GYNHALIWYD AR 17 TACHWEDD 2023 (Tudalennau 5 - 10)

Ystyried cofnodion (copi ynghlwm) cyfarfod diwethaf Cyd-bwylgor yr AHNE a gynhalwyd ar 17 Tachwedd 2023 (HS).

### 4. COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH AHNE A GYNHALIWYD AR 26 IONAWR 2024 (Tudalennau 11 - 16)

Nodi cofnodion (copi ynghlwm) cyfarfodydd Partneriaeth yr AHNE a gynhalwyd ar 26 Ionawr 2024.



**5. COFNODION O GYFARFOD Y GRŴP LLYWIO TIRLUNIAU  
DARLUNIADWY A GYNHALIWYD AR 23 IONAWR 2024**  
(Tudalennau 17 - 20)

I ystyried cofnodion (copi ynghlwm) cyfarfod Tirluniau Darluniadwy a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 (DS).

**6. CYFLWYNIAD AC ADRODDIAD AR Y STRATEGAETH TWRISTIAETH  
CYNALIADWY DRAFFT 2023-2028** (Tudalennau 21 - 34)

I ystyried adroddiad y Strategaeth Twristiaeth Cynaliadwy drafft 2023-2028 (copi ynghlwm) (CL)

**7. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT DYNODIAD PARC  
CENEDLAETHOL GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU**

I dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan Reolwr Rhaglen Cyfoeth Naturiol Cymru, Ash Pierce ar Brosiect Dynodiad Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru).

**8. CYFLWYNIAD AC ADRODDIAD AILBRANDIO TIRWEDD  
CENEDLAETHOL** (Tudalennau 35 - 62)

I ystyried adroddiad (copi ynghlwm) ar Ailfrandio Tirwedd Cenedlaethol (HS).

**9. ADRODDIAD DIWEDDARAF DATGANIAD BLYNYDDOL Y CYD-BWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG)** (Tudalennau 63 - 66)

I ystyried Adroddiad Diweddaraf Datganiad Blynnyddol y Cyd-bwyllgor (copi ynghlwm) (SG a PO)

**10. RHAGLEN WAITH (EITEM SEFYDLOG)** (Tudalennau 67 - 72)

I ystyried y Rhaglen Waith (copi ynghlwm) gan y Swyddog AHNE (HS).

**11. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Er gwybodaeth, dyddiad cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor yr AHNE yw 21 Mehefin 2024.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

David Healey  
Dave Hughes  
Hugh Jones

Win Mullen-James  
Nigel Williams  
Emrys Wynne

## **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cofnodion cyfarfod hybrid Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Siambwr yr Arglwydd Jones y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug a thrwy fideo-gynadledda ddydd Gwener, 17 Tachwedd 2023 am 10.00 am.**

## AELODAU CYD-BWYLLGOR YR AHNE A OEDD YN BRESENNOL

Dave Hughes (CSyFf) (Cadeirydd), David Shiel (Rheolwr Ardal yr AHNE), Huw Rees (Rheolwr Cefn Gwlad a Threftadaeth, CSDd), Karen Weaver (Swyddog Cydlynwr yr AHNE), John Roberts (Partneriaeth yr AHNE a Chyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy), Andy Worthington (Cadeirydd Partneriaeth yr AHNE), Ash Pearce (Cyfoeth Naturiol Cymru), Ceri Lloyd (Swyddog Datblygu Cynaliadwy'r AHNE), Howard Sutcliffe (Swyddog yr AHNE), Lisa Jones (Adran Gyfreithiol CSDd)

## HEFYD YN BRESENNOL AR-LEIN

Y Cynghorydd Win Mullen James (CSDd), Emrys Wynne (CSDd), Huw Jones (CBSW), Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Eiddo, CSDd), Paula O'Hanlon (Uwch Swyddog Cyllid, CSDd), Emlyn Jones (CSDd), Ffion Roberts (CSDd), Tom Woodall (CSyFf) a Keith Davies (Prif Ymgynghorydd ar Dirweddau Dynodedig)

## ARSYLWYR

Y Cynghorydd James Elson, y Cynghorydd Mike Bather a'r Cynghorydd Bobby Feeley

Yn gyntaf, dywedodd y Cadeirydd na fyddai'r Cynghorydd Dave Healey yn bresennol heddiw oherwydd profedigaeth deuluol, a chytunwyd i anfon cydymdeimlad a dymuniadau'r Pwyllgor ymlaen ato.

### 1. CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLTIAD

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dave Healey (CSyFf), Andrew Farrow (CSFf) a Nigel Williams (CBSW)

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

### 2. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y CYD-BWYLLGOR

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2023.

Materion yn Codi

Cyfeiriodd Steve Gadd at eitem 7 ar y rhaglen lle dywedodd fod CL wedi cyflwyno'r adroddiad, mewn gwirionedd ef a Paula O'Hanlon a'i cyflwynodd.

Cafodd y cofnodion eu cynnig a'u heilio gan Huw Jones ac Emrys Wynne.

**PENDERFYNWYD:**

Cytuno bod y cofnodion yn gywir.

**3. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y GRŴP LLYWIO EIN TIRLUN DARLUNADWY**

Eglurodd HS nad oedd y cofnodion hyn ar gael ar hyn o bryd ond dywedodd fod Ein Tirlun Darluniadwy wedi'i gynnwys yn y rhain. Cyfeiriodd hefyd at yr arddangosfa hynod Iwyddiannus a gynhalwyd yn Oriel Dory yn Llangollen.

**4. COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 20 HYDREF 2023**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Partneriaeth yr AHNE a gynhalwyd ar 23 Hydref.

Cyfeiriodd EW at dudalen 10 a'r dduau wall sillafu yn eitem 2 Gwangollen a'r trydydd pwynt bwled Llyfasi.

Cyfeiriodd AW hefyd at eitem 2 "Prosiect Cymunedol Pentre Dŵr" a ddylai ddarllen cynhyrchu cnu gradd mynydd nid grawn.

Cyfeiriodd HS at eitem 7 a oedd yn trafod ail-frandio'r AHNE yng Nghymru a Lloegr, a'r posibilrwydd y gellid cyfeirio at Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn y dyfodol fel "Tirluniau Cenedlaethol" gyda logo newydd. Rhannodd y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol yng Nghymru, gan ddweud bod y sefyllfa yn cael ei monitro am nawr.

Rhoddodd AW drosolwg o'r cyfarfod, gan dynnu sylw penodol at y cyflwyniad "Diwrnod ym Mywyd Ffermwyr", pwysigrwydd sefydlu'r 6 Gweithgor a'r Cyflwyniad gan Dŵr Cymru. Cyfeiriodd hefyd ar y cyflwyniad ardderchog gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cafodd y cofnodion eu cynnig a'u heilio gan y Cyngropydd Dave Hughes ac Andy Worthington.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn a nodi'r cofnodion.

**5. CYFLWYNIAD AR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY**

Roddodd Ceri Lloyd (Swyddog Datblygu Cynaliadwy'r AHNE) gyflwyniad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar y sleidiau canlynol: -

- Trosolwg

- 19 Prosiect, 7 Cynllun Grant Cefn Gwlad a 2 gyfarfod Panel gyda gwybodaeth am yr arian cyfatebol a ddarparwyd
- Crynodeb o'r Canlyniadau a gafwyd
  - 7 o gynefinoedd wedi'u gwella
  - 44 contractwr/cyflenwr lleol wedi'u penodi
  - 656 o goed wedi'u plannu
  - 1260 o bobl wedi cymryd rhan
  - gyda 4014 o oriau gwirfoddol
  - 197 o ddigwyddiadau cyhoeddus
  - 28 o weithgareddau marchnata a hyrwyddo
- Cafodd Adolygiad Cynllun Rheoli 2020 – 2025 ei rannu'n 4 thema.
  - Natur, Tirwedd a Threftadaeth - darparwyd gwybodaeth am y Prosiect Awyr Dywyll a'r Fenter Gwella'r Dirwedd
  - Newid Hinsawdd - rhannwyd gwybodaeth am y Prosiect Cymunedau Gwyrdd a'r Stori Hydro
  - Hamdden, Iechyd a Lles – rhannwyd gwybodaeth ynghylch Park Run Llangollen a Gwyliau Cerdded Prestatyn a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Natur er budd Iechyd
  - yr Economi Wledig – rhannwyd gwybodaeth am brosiectau Bwyd a Diod a Thwristiaeth

Diolchodd y Cadeirydd i Ceri am y cyflwyniad, a dywedodd ei bod yn anhygoel gweld yr hyn sydd wedi'i gyflawni gyda chyn lleied o arian.

Llongyfarchodd AW y tîm a dywedodd bod y cyflwyniad yn amlinellu'r cyflawniadau, canlyniadau'r prosiectau a sut roeddent yn cysylltu â'r Cynllun Rheoli

Llongyfarchodd EW y tîm hefyd, yn arbennig o ran Park Run Llangollen a Gwyliau Cerdded Prestatyn. Nid oedd y rhain yn brosiectau mawr, ond mae'r gwerth am arian a'r manteision penodol maent yn eu cynnig i gymaint o bobl yn anhygoel.

## 6. **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT DYNODIAD PARC CENEDLAETHOL GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU**

Rhoddodd Ash Pierce, Cyfoeth Naturiol Cymru, gyflwyniad a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar y pwyntiau canlynol:-

- Trosolwg – Amserlen

- Ardal y Chwilio
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Ymgysylltu diweddar a digwyddiadau i ddod
- Positifrwydd/ negyddoldeb cychwynnol
- Meisydd o Ddiddordeb
- Angen eglurder ar fanteision Dynodiad Parc Cenedlaethol
- Themâu cyffredin

Dyweddodd y Cadeirydd, gan nad oedd gan y pwylgor bwerau dirprwyol i drafod hyn, y dylid ystyried pob cwestiwn ar sail unigol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan AW ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru (LIC), eglurodd AP fod rhaid i CNC barhau'n ddiduedd, gan fod LIC yn ystyried nad oedd yn dylanwadu'n ormodol ar y broses na CNC. Unwaith y byddai'r cam ymgynghori yn cael ei gyrraedd, byddai modd i pawb roi sylwadau ac i CNC gyflwyno eu cynnig, yn nodi'r hyn roeddent o'r farn ei fod yn gywir. Yna, byddai LIC yn penderfynu a yw'r dystiolaeth yn gadarn, a fyddent yn cytuno â hi ac yn parhau ar y sail honno. Byddai gan bartneriaid eraill fwy o rôl eirioli drwy gydol y broses.

Gofynnodd AW a fyddai modd dosbarthu'r sleidiau i'r bwrdd. Cytunodd AP i rannu'r rhain.

Roedd JR yn meddwl tybed a oedd adborth i barciau cenedlaethol gymryd rhan fwy gweithredol o ran bioamrywiaeth, adfer natur a newid yn yr hinsawdd. Hefyd, o'r trafodaethau a gynhaliwyd gan Gyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, gofynnodd a fyddai'r newidiadau i ardal y chwilio ar gyfer y parc cenedlaethol yn cael eu hystyried.

Mewn ymateb, cyfeiriodd AP at rôl parciau cenedlaethol ac roedd yn credu bod dyhead i gael mwy o effaith. Roedd asesiad yn cael ei gynnal i nodi gwahanol ffyrdd o weithio o ran y prosesau rheoli cynaliadwy integredig. Fodd bynnag, nid oedd edrych y tu hwnt i'r sefydliad yn rhan o gylch gwaith ei dîm. Mewn perthynas ag ehangu'r chwiliad o'r awyr, dywedodd y byddai angen cyflwyno dystiolaeth a fyddai'n cael ei hystyried unwaith y byddai'r holl ymatebion wedi'u cyflwyno.

Cyfeiriodd Keith Davies at Archwiliad Dwfñ Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru a gyflwynodd argymhelliaid ar gyfer y broses o ddynodi parc cenedlaethol newydd. Byddai angen iddo ddangos sut mae wedi ymgorffori a mesur adferiad natur, lliniaru ac addasu hinsawdd, a fyddai'n brif flaenoriaeth i unrhyw barc cenedlaethol newydd a fyddai'n cael ei sefydlu.

Cyfeiriodd EW at y problemau a gafwyd o ran gormod o bobl yn ymweld â safleoedd megis Eryri, Moel Fannau a Bwlch yr Oernant yn dilyn covid. Dywedodd AP, yn y sefyllfa hon, y byddai angen cyflwyno sylfaen dystiolaeth yn sefydlu a fyddai dynodiad parc cenedlaethol yn gwella, gwaethyg neu lliniaru'r problemau hynny. Gan fod y problemau hyn yn bodoli eisoes o fewn yr AHNE, canfu y byddai hyn yn

gwneud pethau'n waeth, ond bod angen dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi'r lefel honno o ymwelwyr.

Roedd gan EW bryderon hefyd ynghylch twristiaeth mewn cyrchfannau poblogaidd ac roedd o'r farn eu bod â goblygiadau i geisiadau cynllunio o fewn awdurdodau lleol. Dywedodd AP mai cam nesaf y broses fyddai edrych ar y gwahanol ddewisiadau o ran cynllun y parc a rhagosodiad parciau eraill. Roedd yn bosibl y byddai ceisiadau cynllunio yn cael eu dirprwo'n ôl i awdurdodau lleol er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol.

Cyfeiriodd KD at swyddogaeth ffurfiol unrhyw awdurdod newydd, gan ddweud y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch rhai o'r dewisiadau. Un dewis possibl ar gyfer parc cenedlaethol newydd gyda swyddogaethau cynllunio fyddai dirprwo'r swyddogaeth reoli i'r awdurdodau cyfansoddol. Byddai'r rhain yn cael eu trafod ar gam nesaf y prosiect.

Dyweddodd HS fod y cyflwyniad yn egluro'r broses ymgysylltu cynnar a gynhaliwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Darllenodd y wybodaeth yng nghynllun Eryri, gan gynnwys nifer y datblygiadau ar y gweill, gyda'r amod bod pobl wedi byw a gweithio yn yr ardal am 5 mlynedd. Nodwyd hefyd bod cynllunio yn cymryd amser hir mewn parciau cenedlaethol; un diwrnod yn hirach oedd hyn mewn gwirionedd. Yna, cyfeiriodd ar y ddwy ddogfen a oedd yn destun ymgynghoriad gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a dywedodd nad oedd modd i'r cyd-bwyllgor ymateb. Fodd bynnag, byddai modd i'r aelodau ymateb yn unigol i'r holiadur, cyn 27 Tachwedd.

## 7. **ADRODDAD ARIANNOL DATGANIAD BLYNYDDOL Y CYD-BWYLLGOR**

Cadarnhaodd SG mai dyma'r sefyllfa ariannol o ran monitro yn ystod y flwyddyn a chyfeiriodd at y prif bwyntiau ynddo. Roedd yr adroddiad yn dangos gorwariant o £17,000 y cyllidebwyd ar ei gyfer mewn gwirionedd, ac roedd tudalen 58 yn rhoi gwybodaeth a y cyfraniad o arian wrth gefn, sef y gorwariant. Amlygodd yr adroddiad hefyd bod £52,000 ar ôl yn y gronfa wrth gefn gyffredinol. Eglurwyd y risgiau o ran cyllid Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Gan gyfeirio at y Datganiad Blynnyddol, nodwyd bod Archwilio Cymru wedi cadarnhau eu bwriad i ddechrau gweithio ar Datganiad Blynnyddol ym mis Rhagfyr, gan ei orffen ym mis Ionawr.

## **PENDERFYNWYD**

Bod yr Aelodau'n cydnabod iddynt dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

## 8. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**


Cyflwynodd HS y RhGD a chyfeiriodd at y prif faterion i'w hystyried.

## 9. **DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Ebrill 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:20 am.

DRAFT



**Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy**  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwech Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty

**Cyfarfod Partneriaeth yr AHNE  
Dydd Gwener 26 Ionawr 2024  
am 10:00yb**

**Cyfarfod Hybrid yn Swyddfeydd Caledfryn, Dinbych**

**Yn bresennol**

**Aelodau Partneriaeth yr AHNE**

Andrew Worthington OBE (Cadeirydd)  
Y Cyng. Bobby Feeley, CSDd (ar-lein)  
Y Cyng. Martyn Hogg, CSDd  
Y Cyng. Dave Healey, CSFf (ar-lein)  
Y Cyng. Dan Rose, CSFf (ar-lein)  
Ian Papworth, Del Roberts-Jones (ar-lein)  
Diddordeb Trefol  
Roger Cragg - Diddordeb Gwledig  
Sandy Archdale - Diddordeb Rheoli Tir  
Michael Skuse - Diddordeb Tirwedd  
Fiona Gale - Diddordeb Treftadaeth a Gwledig  
John Roberts - Diddordeb Mynediad a  
Hamdden  
Les Starling - Diddordeb Amgylchedd Naturiol  
Rajan Madhok - Diddordeb Iechyd a Lles  
(ar-lein)  
Helen Job (ar-lein), David Davies (ar-lein)  
Diddordeb Unigol

**Arsylwyr Cyd-bwyllgor AHNE**

Y Cyng. Dave Hughes (Cadeirydd) CSFf  
(ar-lein)  
Y Cyng. Emrys Wynne CSDd (ar-lein)

**Tîm AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE  
David Shiel, Rheolwr Ardal yr AHNE  
Huw Morgan, Swyddog Adnoddau Naturiol a  
Ffermio  
Rachel Jones, Uwch Geidwad  
Ceri Lloyd, Swyddog atblygu Cynaliadwy AHNE  
Karen Weaver, Cydlynnydd yr AHNE  
Ros Stockdale, Swyddog Datblygu

**Cyngor Sir Ddinbych**

Huw Rees, Rheolwr Gwasanaethau  
Treftadaeth a Chefn Gwlad

**Cyngor Sir y Fflint**

Tom Woodall, Rheolwr Mynediad a'r  
Amgylchedd Naturiol

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Mike Bather, Safle Treftadaeth y Byd (ar-lein)

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Anna Jones (ar-lein)

**Tirweddau Cymru**

Ruth Lovell (ar-lein)

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Ash Pearce, Rhaglen Tirweddau Dynodedig  
Carole Rothwell (ar-lein)  
Richard Dearing (ar-lein)

**CADW**

Fiona Grant, Guy Salkeld (ar-lein)

**Arsylwr yn y Cyfarfod**

Clive Jones



**Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy**  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwech Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty

**sir ddinbych**  
Cyngor  
Denbighshire  
County Council



**Tudalen 11**

**Sir y Fflint**  
CYNGOR  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL

**wrexham**  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
wrecsam

## **Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:**

Y Cyng. Win Mullen James, Alan James, Paul Cunningham, ac Ashley Batten,  
Christine Evans, Rhun Jones, Rhian Pierce, Hannah Marubbi

1.

### **Croeso**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd y Cyng. Bobby Feeley yn ôl i'r Bartneriaeth, gan egluro bod y Cyng. Feeley wedi disodli'r Cyng. Jon Harland.

Hefyd fe groesawodd Ruth Lovell, Anna Jones, Ash Pearce, a'r arsylwr yn y cyfarfod, Clive Jones.

Cytunwyd y dylid anfon negeseuon o ddymuniadau gorau ar ran y Bartneriaeth i'r Cyng. Paul Cunningham a Dr Christine Evans sydd yn yr ysbyty.

2.

### **Nodiadau o'r Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi**

Tudalen 2, Eitem 2 'aelod o Dîm Llysfasi i'w ystyried ar gyfer aelodaeth o'r bartneriaeth', a dywedodd Howard nad oedd hyn yn 'gam gweithredu' ond yn hytrach yn gynnig a fyddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r broses adolygu.

Cam Gweithredu

Mari Jones, Swyddog Ymgysylltu'r AHNE i edrych i mewn i'r opsiynau.

Tudalen 3, Eitem 5 - Diweddariad ar yr Adolygiad o Weithgorau – Ystyried grŵp penodol i iechyd a gweithgor ffermio. Ymatebodd Howard gan ddweud bod y gweithgorau'n dal i gael eu hystyried a bod nifer o dirfeddianwyr / ffermwyr wedi cael eu nodi. Parhaus

#### Tudalen 5 – Statws Parc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru

Cyfeiriodd Mike Skuse at y sesiwn Holi ac Ateb - 'A fyddai ardaloedd y Brenig a'r Alwen (mae tyrbinau gwynt yn yr ardaloedd hyn) yn cael eu hystyried ar gyfer yr ardal chwilio', a gofynnodd a oedd yr ymateb yn gywir, ymatebodd Ash Pearce gan ddweud nad oedd unrhyw ardal wedi'i heithrio oherwydd bod ynni adnewyddadwy yn bresennol. Mae rhai awgrymiadau wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod ymgysylltu a bydd yr ardaloedd hynny'n cael eu hystyried.

Cyfeiriodd hefyd at Gwestiwn 4 'A oedd estyniad i'r AHNE wedi cael ei ystyried?'

Dyweddodd Ash y byddai pob ardal yn cael ei hailystyried a, fwy na thebyg, byddai ardal yr AHNE presennol yn aros yn debyg iawn gydag ychydig o ffiniau'n cael eu symud.

Cytunwyd fod y cofnodion yn gywir.

2b

#### Nodiadau'r Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy

Rhoddodd David Shiel y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect:

Cynhaliwyd arddangosfa derfynol yn Oriel Dory, a bydd prif gynnwys yr arddangosfa'n cael ei arddangos yn Amgueddfa Llangollen. Mae'r estyniad o Wenffrwd i'r gamlas bellach wedi'i gwblhau, ac mae'n bosib cerdded yn rhwydd i'r dref bellach.

Llyfr Etifeddiaeth Ein Tirlun Darluniadwy – *Dyffryn Dyfrdwy: Creu Ein Tirlun Darluniadwy*.

Lansiwyd y llyfr ym mis Tachwedd ac mae ar werth yn Loggerheads a Phlas Newydd am £12.

Cytunwyd i ymestyn y prosiect am 12 mis. Mae'r prosiect bellach yn ei chweched flwyddyn.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm cyfan am eu gwaith ardderchog.

3.

### **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Prosiect Gweithio gyda Gwlân**

Cyflwynodd Ros Stockdale, Swyddog Datblygu'r AHNE, y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, yn cynnwys amcanion y cynllun, y gwaith sydd wedi'i wneud gan Gwlangollen a'r AHNE, a sut mae'r prosiect wedi helpu i leihau ein hôl-troed carbon, taenu gwlân yng Ngarddf Gymunedol Corwen, matiau gwlân wedi'u gwehyddu (Flintshare), Wool Insulation Wales.

Pryderodd Aelod ynghylch mewnforio gwlân a dywedodd y dylid defnyddio gwlân o Gymru ble bynnag y bo'n bosib. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud gyda'r prosiect.

4.

#### Cyflwyniad Tirweddau Cymru

Eglurodd Ruth Lovell fod Tirweddau Cymru yn bartneriaeth rhwng y 5 AHNE (Tirweddau Cenedlaethol) a'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, sy'n cydweithio i fynd i'r afael â heriau a rennir, yn cynnwys gweithredu ar newid hinsawdd a chyflwr natur. Cafodd ei chreu yn dilyn Adroddiad Marsden. Mae Howard yn aelod o'r Bwrdd ac mae aelodau eraill o staff yr AHNE hefyd yn cymryd rhan.

Rhoddwyd gwybodaeth am y sleidiau canlynol: cymryd rhan yn yr argyfwng natur a hinsawdd, cydweithio ar draws tirweddau a meysydd gwaith, rhaglen buddsoddiadau cyfalaf Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy.

5.

#### Cyflwyniad ar Gynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu

Cyflwynodd Anna Jones wybodaeth gefndir ac eglurodd yr Amcanion Strategol ar gyfer y rôl: Datblygu, gweithredu ac arwain cynllun gweithredu ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a thirweddau dynodedig eraill fel sy'n briodol i wneud gwelliannau sylweddol mewn perthynas â:

- ✚ Nodi a datblygu hyfforddiant i gefnogi a datblygu aelodau
- ✚ Ymgymryd â gwaith i hyrwyddo amrywiaeth ymssg staff ac aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- ✚ Gwella amrywiaeth yn fewnol
- ✚ Nodi a datblygu mesurau i wella amrywiaeth ymwelwyr i Dirweddau Dynodedig
- ✚ Cefnogi Tirweddau Dynodedig i ymateb i fentrau allweddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a safonau'r Gymraeg, yn ogystal â chynyddu eu cyfraniad tuag at fynd i'r afael â thlodi plant a thlodi gwledig (ffocws mentrau LIC)

Trafodwyd cysylltu pobl iau â chefn gwlad, cynigodd Fiona Gale y gallai Treftadaeth fod yn llwybr da i gefn gwlad ar gyfer pobl ifanc, ac ychwanegodd Fiona Grant y dylai grwpiau archeoleg iau, gyda chymorth Cadw o bosib, fod yn rhan o'r prosiect ar lefel strategol, ychwanegodd Howard bod dau grŵp Ceidwaid Ifanc o fewn yr AHNE ac y byddai Cynhadledd Ewropeaidd y Ceidwaid Ifanc yn cael ei chynnal gan ein AHNE eleni.

Mewn ymateb, eglurodd Ruth fod gwaith cefndir yn mynd rhagddo gyda chyllid drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn cael ei archwilio. Hefyd, mae strategaeth cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu yn cael ei datblygu. Awgrymwyd y dylid ystyried gosod gasibo dros dro i ddarparu gwybodaeth i bobl ifanc am yr AHNE.

Cam Gweithredu

- ✚ Cynigiwyd y dylid gwahodd Ceidwad Ifanc ac Archeolegydd Ifanc i gyfarfod Partneriaeth yn y dyfodol
- ✚ Ystyried cysylltu gyda myfyrwyr coleg a phrifysgol

Holodd Aelod ynghylch sut gall gwaith Tirweddau Cymru gysylltu â Chynllun Rheoli'r AHNE; mewn ymateb eglurodd Howard y byddai Tirweddau Cymru yn dylanwadu ar gynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol mawr, a bod Cynllun Rheoli'r AHNE yn canolbwytio ar gynlluniau lleol.

Holodd Mrs Archdale pam nad yw ffermio a da byw yn cael mwy o sylw yn y cyflwyniadau yma. Eglurodd Ruth fod llawer o wybodaeth wedi'i chael gan y gymuned amaethyddol, ac ymddiheurodd os nad yw'r wybodaeth honno wedi'i chyflwyno'n glir.

Gofynnodd Rajan Madhok pa waith oedd yn cael ei wneud i ymgysylltu gyda Lleiafrifoedd Ethnig, a dywedodd Howard fod estyn allan yn bwysig iawn. Fodd bynnag, roedd capaciti staff yn broblem ar hyn o bryd.

Wrth grynhoi dywedodd y Cadeirydd, ar lefel genedlaethol a gyda'r gwaith yr oedd y grŵp wedi clywed amdano heddiw, y dylai hyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau.

## 6. Prosiect Parc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru

Diolchodd Ash Pearce, Rheolwr y Prosiect, i'r Bartneriaeth am ei wahodd i'r cyfarfod. Eglurodd y cafwyd ymateb da i'r cyfnod ymgysylltu a gynhaliwyd i geisio nodi problemau a phryderon gyda'r prosiect. Cafwyd mil o ymatebion, ynghyd ag e-byst ac ymholiadau. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid. Roedd rhestr gynhwysfawr o ymholiadau wrthi'n cael ei llunio, a byddai Adroddiad Ymgysylltu yn cael ei gynhyrchu maes o law. Cafwyd trafodaeth i ddilyn. Mewn ymateb i gwestiwn gan Mrs Archdale ar gyllideb y prosiect, cadarnhaodd Ash fod gan y prosiect gyllideb o £700,000 y flwyddyn, gan egluro bod y gyllideb hefyd i'w defnyddio ar gyfer gwaith cenedlaethol ar agweddau eraill o harddwch naturiol. Fodd bynnag, dywedodd fod tanwariant y llynedd gydag ond traean o'r gyllideb wedi'i defnyddio. Ymatebodd Mrs Archdale gan ddweud nad oedd yr ardal, yn ei barn hi, yn gallu ymdopi gyda nifer yr ymwelwyr ac nid oedd yn cytuno gyda defnyddio arian y trethdalwyr ar gyfer y dynodiad. Mynegwyd pryderon cyffredinol ynghylch rhagdybiaethau o'r Parc Cenedlaethol nes bod y dystiolaeth wedi'i chasglu a'i chyflwyno (dylai'r broses nodi bob 'Grym dros Newid'). Pwysleisiodd Ash fod CNC yn ddiduedd yn y broses ddynodi.

Gofynnwyd a fyddai ymweliadau safle yn cael eu gwneud i ardaloedd a gynigir yn ychwanegol. Cadarnhaodd Ash y byddai'r holl ardaloedd yn cael eu gwerthuso a'u hymweld, gan ychwanegu bod ymarfer ymgysylltu wedi'i gynnal, ac nid ymgynghoriad. Bydd proses ymgynghori ffurfiol i ddilyn.

Gan gyfeirio at Hiraethog / Mynydd Hiraethog, cadarnhawyd bod yr ardal wedi'i hystyried ac y byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud yn y dyfodol agos. Soniodd Aelod y gellir rheoli effaith nifer yr ymwelwyr yn fwy effeithiol gyda'r cyllid ychwanegol a fyddai'n cael ei gyflwyno gyda'r dynodiad Parc Cenedlaethol, ac fe allai hefyd gynorthwyo â gwytnwch cymunedau.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd bod yr holl safbwytiau a godwyd yn y cyfarfod yn cael eu nodi a'u gwerthfawrogi a phwysleisiodd fod yn rhaid ystyried y manteision ar gyfer y gymuned ffermio. Gan gyfeirio at gyllideb y prosiect, dywedodd ei fod yn swm bach o gymharu â'r manteision hamdden ac iechyd a lles y bydd yn dod i'r ardal. Ychwanegodd fod Parciau Cenedlaethol yn asedau cenedlaethol mawr ac nad oes dynodiad byd-eang uwch, a gallai'r AHNE fod yn rhan o hynny.

## 7. Cronfa Ffyniant Bro – Moel Famau a Pharc Gwledig Loggerheads

Darparodd Rheolwr Ardal yr AHNE, David Shiel, gyflwyniad PowerPoint ar ddu brosiect Ffyniant Bro.

### Parc Gwledig Loggerheads

I'w gyflawni erbyn mis Mawrth 2025, i gwrdd â'r galw yn sgil cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Mae'r prosiect yng nghamau cynnar y broses syniadau a dylunio.

Gwella'r Ganolfan Ymwelwyr – caffi a gofod awyr agored ar gyfer arlwyd. Codwyd yr adeiladau yn 1985.

Lliniaru llifogydd – mae'r parc wedi cael llifogydd sawl gwaith. Mae Waterco wedi'i benodi i gynghori.

Llwybrau beicio estynedig – mae llwybr beicio caniataol yno'n barod, y cynnig yw gwella'r llwybr a'i wneud yn fwy deniadol. Mae'r llwybr i gyd ar dir CSDd.

### Moel Famau

Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu'n sylweddol. Mae yna gwt bugail ym maes parcio Bwlch Pen Barass bob hyn a hyn, ond yn bennaf ar benwythnosau. Fodd bynnag, mae'n heriol i'w redeg ac nid oes trydan. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i sefydlu canolbwyt a thoiledau newydd, ynghyd â chyfleuster i werthu lluniaeth a chynnal ymgyrchoedd.

Nid oedd dŵr na thrydan ym Mhen Barras, a byddai angen caniatâd cynllunio.

Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal. Byddai'r canolbwyt yn cael ei ddylunio mewn modd sensitif i gyd-fynd â'r dirwedd ac i wella'r profiad i ymwelwyr.

## 8. Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Swyddog yr AHNE

### Brandio Tirweddau Cenedlaethol

Darparodd Howard Sutcliffe gyflwyniad ar 'Tirweddau Cenedlaethol' (yr enw newydd ar AHNEoedd) gan egluro bod bron pob AHNE yn y DU wedi newid eu henw i 'Tirweddau Cenedlaethol' yn dilyn lansio'r brandio newydd fis Medi 2023. Ychwanegodd nad oedd yr acronym AHNE yn hawdd ei ddefnyddio a'i fod yn cael ei gamsillafu'n aml a chytunwyd y byddai 'Tirweddau Cenedlaethol' yn llawer haws i'w gofio a'i hyrwyddo. Daw'r holl gyllid ar gyfer newid y brandio yn gan y National Landscapes Association.

Cytunwyd y byddai'r ailfrandio yn gallu peri dryswch ochr yn ochr ag ystyried parc cenedlaethol. Fodd bynnag, os nad yw'r AHNE yn newid ei enw fe all fod yr unig AHNE i beidio â gwneud hynny. Cynigiwyd creu Grŵp Tasg a Gorffen i ystyried yr eitem ymhellach. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a ydynt yn dymuno cael eu cynnwys yn y grŵp.

Cam Gweithredu

-  Bydd yr AHNE yn ystyried newid i'r brandio newydd dros y misoedd nesaf
-  Bydd Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei gynnnull i ystyried y newid ymhellach a bydd eitem yn cael ei chyflwyno eto yn y cyfarfod nesaf
-  Bydd Howard yn cyflwyno'r cynnig yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwylgor

## 9.

### Unrhyw Fater Arall

#### Cronfeydd Dŵr yng Nghilcain

Mynegodd Sandy Archdale bryderon fod y cronfeydd dŵr yng Nghilcain wedi cael eu draenio'n ddiweddar, ac nid oedd ymwelwyr yn gallu pysgota yno mwyach, mewn ymateb, eglurodd Howard fod y penderfyniad wedi cael ei wneud gan Dŵr Cymru.

-  Roedd CSDd wedi prynu tir ger Moel y Plas yn ddiweddar.
-  Mae Sam Kenyon wedi'i benodi'n Swyddog y Gylfinir.



## 10.

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:

**Dydd Gwener 7 Mehefin 2024 10:00**

**Dydd Gwener 18 Hydref 2024 10:00**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy

Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Llywio,

Caffi Wylfa, Castle Road

Y Waun, Wrecsam.

Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024 10am tan 12 canol dydd.

### Aelodau yn Bresennol

David Shiel (DS), Hannah Marubbi (HM) Jillian Howe (JH), Sallyanne Hall (SH), Mike Bather (MB), Howard Sutcliffe (HS), Huw Rees (HR), Ffion Roberts (FR), Fiona Gale (FG) John Roberts (JR).

### Ymddiheuriadau

Lynne Jones (LJ), Nicola Lewis-Smith (NLS), Rhun Jones (RJ) Paul Evans (PE), Del Roberts Jones (DRJ), Fiona Grant (FGr),

1. Croeso ac Ymddiheuriadau	Croesawyd pawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.	Camau Gweithredu
2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf	Cysylltu ag Ian Hughes, Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chynrychiolydd yn lle Alun Price.  Rhoddodd MB y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ar brosiect creu celf a ariannwyd gyda £250,000 SPF ynghyd â Safle Treftadaeth y Byd a gyflawnir erbyn Hydref 2024. Bydd cyfarfod ymgynghori yn cael ei gynnal ym Masn Trefor ar 7 / 8 Chwefror i gyfarfod Claire sy'n rheoli'r prosiect a bydd yn dymuno trafod ymgysylltu â'r gymuned, ysgolion, partneriaid a chysylltiadau â gwaith a fydd yn cyfannu ac yn ychwanegu at y gwaith a gyflawnwyd eisoes gan OPL. OPL i anfon ein strategaeth ddehongli i'r prosiect ac i rannu manylion yr ymgynghoriad gydag Emma Jayne Holmes.	HS/DS  <b>Ein Tirlun Darluniadwy</b>

	<p>Dim newid ar unrhyw newyddion am gyllid pellach ar gyfer cwblhau'r cwt Lengthsmans yn Froncysyllte.</p> <p><b>Roedd trafodaethau a gafwyd ar gyfer cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi eu cofnodi yn 3. Cofrestr Risg o dan destunau penodol.</b></p>	
<b>3. Cofrestr Risg y Prosiect</b>	<p><b>Porthdy Dinas Brân</b>  Bydd gwaith atgyweirio'r llwybr i fyny at y porthdy ar yr ochr panorama yn dechrau yn y gwanwyn pan fydd y tywydd wedi gwella.  <b>Dehongliad</b>  Dal i aros am 4 o'r paneli hyn i'w cwblhau a'u gosod ar safle Rhaeadr y Bedol.</p> <p><b>Llyfr Etifeddiaeth y Prosiect</b>  Cafodd llyfr Ein Tirlun Darluniadwy ei lansio cyn y Nadolig yn Llyfrgell Llangollen. Roedd 1030 o gopiâu wedi eu hargraffu, 200 copi wedi eu gwerthu hyd yma drwy TIC Llangollen, yr amgueddfa yn Llangollen, TIC Wrecsam a siop Loggerheads. Ym mis Mawrth, bydd canolfan ymwelwyr Basn Trefor a Phlas Newydd yn gwerthu'r llyfr pan fyddant yn agor. Mae llyfrau yn cael eu gwerthu i gyflenwyr gyda phris adwerthu a argymhellwyd. Dim cynlluniau i ailgraffu ar hyn o bryd.</p> <p><b>Adeilad y Pwmp Gwasgu</b>  Mae gwaith yn parhau ar adeilad y pwmp gwasg ym Mhlas Newydd ac mae'r contractwr angen gorffen y to. Bydd y daith yn ddibynnol ar y tywydd. Mae'r gwaith haearn yn cael ei osod ar yr adeilad yr wythnos hon. Roedd gan Lisette y garddiwr gynlluniau i ddechrau ar ardd y gors yn y 3 mis nesaf ar ôl i'r adeilad gael ei gwblhau.</p> <p><b>Rheoli Panorama</b>  Roedd yn rhaid ail-wneud arwyddion panorama oherwydd gwall bach. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi codi rhai cwestiynau pellach ynglŷn â gosod yr arwyddion mewn ardal ACA, roedd y tîm yn gobeithio y byddai'r rhain yn cael eu goresgyn ac y bydd yr arwyddion yn cael eu gosod yn fuan. Y gobaith yw y bydd yr arwyddion hyn yn annog pobl i beidio parcio yn ddiofal gan ddifrodi'r tir mewn 4 ardal allweddol a chodi ymwybyddiaeth am statws yr ardal. Roedd taith gerdded bioamrywiaeth yn cael ei threfnu yma ar gyfer mis Mai ac ymhellach i'r haf.</p> <p><b>Parc Poced Wenffrwd</b>  Mae llwybr cysylltu Wenffrwd i'r gamlas bellach wedi'i gwblhau ac mae wedi derbyn ymateb ac adborth da. Mae dewisiadau ar gyfer costau gwaith pellach ar y safle y tu hwnt i gwmpas y prosiect Ein Tirlun Darluniadwy wedi'i wneud. Bydd yr ardal ble mae'r cyfansawdd yn cael ei ddatblygu, ei dacluso a'i wneud yn ardal weithredol gyda ffens well. Bydd y gwaith gyda'r effaith fwyaf yn cael ei wneud gyntaf oherwydd y cyfyngiadau ariannol. Bydd grwpiau</p>	

	<p>cymunedol a gwirfoddolwyr yn gallu defnyddio'r mannau ar gyfer gweithgareddau. Bydd tariffau parcio yn dechrau cyn y Pasg.</p> <p><b>Llwybrau Cylchol Darluniadwy</b></p> <p>Mae taflen taith gerdded <i>Cefn Mawr</i> nawr wedi'i chwblhau. Bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i rai o'r Llwybrau ar hyd y Llwybr hwn drwy ddefnyddio'r Gronfa Ffyniant Bro. Bydd y daflen yn cael ei dosbarthu ar gyfer agoriad Basn Trefor ac ar gyfer lansio'r daith ym mis Mawrth gyda'r tîm ceidwaid AHNE. Roedd MB yn awgrymu cael arwyddion ar y panel dehongli ar gyfer safle JC Edwards i hysbysu pobl am y daith, cyfle i hybu'r daith. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i hyrwyddo'r Llwybrau yn y safleoedd hyn.</p> <p><i>Cynhalwyd Taith Y Waun</i> ym mis Rhagfyr ac roedd pawb oedd yn bresennol wedi mwynhau er gwaethaf y glaw.</p> <p><i>Darganfod Llwybrau Dyffryn Dyfrdwy</i>, sef hen lyfryn Darganfod Corwen. Roedd JH yn aildylunio hwn ac yn aros i fapiau gael eu dylunio ar hyn o bryd. Roedd y tîm wedi bod yn gwirio rhai o'r Llwybrau fydd yn cael eu defnyddio i sicrhau eu bod yn addas ac yn hygyrch a holl seilwaith ac arwyddion yn eu lle. Roedd gan Reilffordd Llangollen ddiddordeb mewn cylido arwyddion i'w defnyddio yn Rheilffordd Corwen.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'n bosibl i'r holl aelodau dderbyn set cyflawn o'r holl daflennoi teithiau cerdded yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i'r tîm wahodd Crwydro Wrecsam ac aelodau lleol yr ardal ar gyfer lansio'r daith gerdded ym mis Mawrth.</p> <p><b>Y Bws Darluniadwy</b></p> <p>Roedd y gwasanaeth yn profi'n boblogaidd iawn a bydd yn rhedeg eto y flwyddyn nesaf o 30 Mawrth tan 31 Awst. Bydd y system ffioedd yn newid eleni, gan y byddwch yn gallu talu ble byddwch ond yn talu am eich siwrnai.</p> <p><b>Pecynnau Addysg</b></p> <p>Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Muddy Publishing yn cynnwys rhai o'r cymeriadau/delweddu ar y wefan Safle Treftadaeth y Byd ym mhecynnau addysg Ein Tirlun Darluniadwy a chostau defnyddio'r rhain.</p> <p>SH - pecyn dawns nawr wedi'i gwblhau ac wedi'i gysylltu â'r cwricwlwm newydd gyda JH yn gweithio ar y brandio a chreu 'power point' newydd ar gyfer rhai o'r gweithgareddau.</p> <p>Bydd y pecynnau addysg AHNE Bryniau Clwyd yn cael eu cysylltu â'r gwaith hwn ar Dyffryn Dyfrdwy yn y pen draw. Bydd cyfarfod ar 17 Mawrth yn edrych ar yr adnoddau craidd ar y porthol.</p> <p><b>Yr Arddangosfa Derfynol</b></p> <p>Bydd Amgueddfa Llangollen yn arddangos rhywfaint o arddangosfa Ein Tirlun Darluniadwy o ddiwedd Ionawr ac mae Capel Ebenezer yng Nghefn Mawr wedi dangos diddordeb yn yr arddangosfa ar gyfer y gwanwyn / haf.</p> <p>Mae HM yn cynnal trafodaeth gyda'r Eisteddfod Ryngwladol i gynnwys rhywfaint o'r arddangosfa yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Bydd y paneli myriorama llawn yn cael eu harddangos mewn arddangosfa yn Aberystwyth o Chwefror i Mai.</p>	<span style="color: red;">Tîm Ein Tirlun Darlun</span> <span style="color: red;">HS</span>
--	---	---

	<p>Dyweddod HS fod gan Cadwyn Clwyd le yn eu hadeilad ar gyfer yr arddangosfa a fyddai'n galluogi iddi gael ei harddangos yng Nghorwen. HS i archwilio gyda Cadwyn Clwyd.</p> <p><b><u>Staffio Ein Tirlun Darluniadwy</u></b></p> <p>Roedd staffio wedi'i nodi yn oren ar y gofrestr gan fod gan y prosiect o dan flwyddyn i redeg nes bydd yn gorffen.</p>	
<b>4. Dogfennau Diweddu Prosiect.</b>	<p>Bydd yr adroddiad gwerthuso manwl terfynol ar gyfer y prosiect yn cael ei lunio gan Twenty Degrees Consulting ar gyfer y Loteri erbyn Medi. Bydd HM yn cyfarfod gyda nhw yr wythnos hon i drafod yr amserlen ar gyfer adroddiad drafft fel y gall y tîm lunio ystadegau. Bydd dogfen lai gydag ystadegau allweddol ac uchafbwyntiau sy'n nodi'r llwyddiannau yn y prif adroddiad mewn fformat ffeithlun hefyd yn cael ei llunio. Cafodd y grŵp drafodaeth ynglŷn â'r math o adroddiad a'i ddefnydd.</p> <p>Bydd y cynllun cynnal a chadw yn mapio'r cynlluniau prosiect ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwblhawyd yn ystod y 6 blynedd diwethaf. Bydd y cynllun hwn yn datglo i gwerth £50k o gyllid ar gyfer y cynnal a chadw.</p> <p>Roedd DS yn mynegi diddordeb mewn mynd â'r strategaeth ymadael i'r partneriaid i ddangos beth oedd y prosiect wedi'i gyflawni yn ystod y 6 blynedd diwethaf. Gallai'r cyfarfod bwrdd Safle Treftadaeth y Byd ar 12 Ebrill fod y cyfarfod cyntaf ble gallai cynllun cynnal a chadw a llwyddiannau Ein Tirlun Darluniadwy gael ei adolygu a chodi'r cwestiwn am ddyfodol y gwaith o fewn Safle Treftadaeth y Byd.</p>	
<b>6. Unrhyw Fater Arall</b>	<p><b><u>Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Raeadr Y Bedol</u></b></p> <p>Mae'r maes parcio yn y safle hwn ynghau ar hyn o bryd gan fod gwaith gosod tanc septig yn cael ei gynnal hyd at ddiwedd Chwefror. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys mannau parcio ychwanegol a gwella tu blaen y bloc toiledau. Bydd y pwntiau mynediad yn newid gyda chyswllt gwell o'r maes parcio i'r eglwys yn Llantysilio. Bydd y rhwystr uchder yn cael ei osod yn ystod mis Mawrth. Y tu allan i'r man parcio, bydd yna bwyt parcio bws mini / gollwng yn cael ei greu ar gyfer y gymuned canwio.</p> <p>Bydd y gwasanaeth Bws Darluniadwy eleni yn cynnwys gwasanaeth tapio a all helpu pobl i allu cael mynediad i safle Rhaeadr y Bedol ac mae Rheilffordd Llangollen yn trafod y dewis o gael gwasanaeth gwennol ar gyfer trêñ o Langollen i'r Berwyn.</p> <p>Cynhaliodd y grŵp drafodaeth gyffredinol ynglŷn â pharcio o amgylch y prif safleoedd poblogaidd o fewn Dyffryn Dyfrdwy.</p>	
<b>7. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</b>	<b>Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 30 Ebrill yng Nghanolfan Gymunedol Froncysyllte.</b>	



## Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty

Cynhaliwyd ar: **12 Ebrill 2024**

Aelod / Swyddog Arweiniol: **Ceri Lloyd**

Awdur yr Adroddiad: **Ceri Lloyd**

Teitl: **Siapio twristiaeth ar gyfer y dyfodol - gweithio mewn  
partneriaeth i gyflawni twristiaeth gynaliadwy  
Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Chynllun  
Gweithredu 2023-2028**

---

### 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yr adroddiad hwn yw'r Weledigaeth a Chynllun Gweithredu a fwriadwyd ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy o fewn yr AHNE.

### 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer twristiaeth gynaliadwy yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae'r weledigaeth yn cydnabod:

- y nifer gynyddol o bobl sy'n cymryd rhan mewn hamdden awyr agored, sy'n rhoi mwy a mwy o bwysau ar ecosystemau bregus a gwerthfawr
- yr heriau rhanbarthol a byd-eang sy'n codi o argyfyngau hinsawdd a natur
- yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant yn sgil yr argyfwng costau byw a thueddiadau mewn twristiaeth ar ôl Covid-19
- y statws Parc Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer ardal sy'n cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae angen gwneud penderfyniad ar Weledigaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer yr AHNE.

### 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r Aelodau fabwysiadu Gweledigaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer yr AHNE sy'n cynnwys 2023-2028.

#### **4. Manylion yr adroddiad.**

Mae'r Weledigaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy newydd i'w weld yn atodiad 1.

#### **5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Nod y strategaeth hon yw diffinio llwybr i gyflawni'r weledigaeth hon ar gyfer twristiaeth gynaliadwy sy'n cyd-fynd â phedair prif thema Cynllun Rheoli'r AHNE 2020-2025; Natur, Tirwedd a Threftadaeth, Addasu i Hinsawdd sy'n Newid, Hamdden, Iechyd a Lles a'r Economi Wledig.

#### **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Cafodd cyllid ei sicrhau ar gyfer llunio'r strategaeth hon. Mae gan rai swyddogion AHNE gyfrifoldeb i ddarparu elfennau o'r cynllun gweithredu yn ystod amser swyddog. Disgwylir i sefydliadau partner hefyd ddarparu elfennau o'r cynllun gweithredu. Gofynnir am gyllid allanol ar gyfer y camau mwy cymhleth hefyd fel y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, cronfa Lleoedd Cynaliadwy Tirluniau Cynaliadwy, y Pethau Pwysig ac ati. Nid oes yna oblygiadau uniongyrchol ar feysydd gwasanaeth eraill.

#### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Amherthnasol

#### **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Mae gwaith ar y strategaeth wedi ei lywio gan y Gweithgor Twristiaeth Gynaliadwy sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gan gynnwys timau twristiaeth o bob awdurdod lleol, grwpiau busnes a chynrychiolaeth sector unigol. Cafodd dau weithdy eu cynnal gyda'r gweithgor:

- Dydd Mawrth 25 Ebrill 2023
- Dydd Mawrth 18 Gorffennaf 2023

Cafodd y gwaith drafht ei gyflwyno yn Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych ar 25 Hydref 2023 hefyd.

#### **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae costau gweithredu'r Weledigaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer yr AHNE ar gyfer 2023-2028 wedi eu hamlinellu yn adran 6 o'r adroddiad.

#### **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Er bod cynnydd yn y nifer o ymwelwyr yn dod â refeniw, mae hefyd yn ychwanegu pwysau sylweddol ar yr AHNE yn y meysydd canlynol:

- Traffig: parcio a phroblemau traffig
- Amgylchedd: erydiad, creu llwybrau answyddogol

- Staff ac Adnoddau: sbwriel, cynnal a chadw, gwrthdaro gyda defnyddwyr, cŵn oddi ar dennyn.

Bydd methu rhoi Cynllun Gweithredu Twristiaeth Cynaliadwy ar waith yn tanseilio ymdrechion i gadw a gwella harddwch naturiol yr ardal. Mae'r strategaeth yn edrych ar ddod o hyd i ffyrrd o gydbwysedd effaith cynnydd mewn ymwelwyr gyda chynnal y nodweddion arbennig o'r tirlun maent wedi dod i'w weld.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r sail Gyfreithiol yn Adran 101 (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i 'gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o Awdurdodau Lleol eraill drwy Gydbwyllgor'.



## Appendix 1

# Clwydian Range and Dee Valley AONB Shaping tourism for the future - working in partnership to deliver sustainable tourism

This strategy outlines a long-term vision for sustainable tourism within the Clwydian Range and Dee Valley AONB.

This vision recognises;

- the increasing number of people participating in outdoor recreation which is placing increasing pressure on fragile and precious ecosystems
- the global and regional challenges arising from climate and nature emergencies
- the challenges facing the industry arising from the cost of living crisis and tourism trends post-Covid 19
- the proposed National Park status for an area including the CRDV AONB.

This strategy seeks to define a pathway to achieving this vision for sustainable tourism that aligns with the four key themes of the AONB Management Plan 2020-2025; Nature, Landscape and Heritage, Adapting to a Changing Climate, Recreation, Health and Wellbeing, and the Rural Economy.

This sustainable tourism strategy for the CRDV AONB sets comprehensive long-term goals that will require procedural and management changes, along with research, learning and behavioural change. There is significant work to be done if they are to be achieved. The challenges cannot be met by the AONB alone but will require a collaborative approach from the public, private and third sector.

